



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Cymwysterau i gefnogi hyfforddiant, dysgu a datblygiad

Trosolwg o gymwysterau hyfforddiant, dysgu a datblygiad.

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 Hydref 2023

Diweddariad olaf: 20 Mawrth 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/fframwaith-hyfforddi-dysgu-a-datblygu-diogelu-cenedlaethol/cymwysterau-i-gefnogi-hyfforddiant-dysgu-a-datblygiad> am y fersiwn diweddaraf.

Trosolwg o gymwysterau hyfforddiant, dysgu a datblygiad.

Mae'r rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru yn cael eu darparu gan ddarparwyr dysgu sydd wedi'u cymeradwyo gan gonsortiw m sy'n cynnwys City & Guilds a CBAC (y consortiwm).

Mae'r consortiwm yn rheoli ansawdd y cymwysterau ac yn cael ei oruchwylio gan y rheoleiddiwr cymwysterau, Cymwysterau Cymru.

Mae'r cymwysterau hyn yn cynnwys cynnwys diogelu sy'n adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau.

Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn yn unol â'r grwpiau ymarferwyr yn y [Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol](#).

Mae prifysgolion a cholegau hefyd yn cynnal cymwysterau galwedigaethol.

Sicrheir eu hansawdd gan [fframweithiau cymwysterau addysg uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU](#).

Mae gennym adnoddau diogelu, gan gynnwys:

- Modiwl e-ddysgu Grŵp A
- Pecyn hyfforddi diogelu sylfaenol Cymru Gyfan.